CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

Cofnodion Cyfarfod
7fed Hydref 2026 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng. Dewi Gwyn (Cadeirydd), Nia Jones, Ifor Glyn Efans Cynghorwyr Sirol: Robin Williams, Sonia Williams.	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Owain Evans, D Idriswyn Roberts, Llinos Roberts, Heulwen Owen, Janet Jones, Gillian Morris (Clerc), Dyfed Jones (Cynghorydd Sir). Cydymdeimlwyd â LlR a'r teulu ar eu colled diweddar.
2.	**DATGAN DIDDORDEB**: Neb
3.	**DERBYN COFNODION:** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 02/09/2026. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir, IE yn cynnig, NJ yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Ffordd Ael y Garnedd - dim mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn.
4.2	Biniau Graeanu - dim mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn.
4.3	Blooms Homestead - cafwyd y diweddariad yma gan Uwch Swyddog Cynllunio - Gorfodaeth (OWH) *"Gan nad oes tystiolaeth glir ar hyn o bryd bod y garafán yn cael ei defnyddio fel annedd neu at unrhyw ddiben anawdurdodedig arall, nid yw'r Cyngor o'r farn bod digon o dystiolaeth i sefydlu bod tor-rheolaeth gynllunio wedi digwydd. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n annhebygol y gellid cynnal camau gorfodi ffurfiol yn llwyddiannus pe baent yn cael eu herio. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r safle."*
4.4	E-bost wedi ei yrru at arweinydd y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru ynglŷn â thraffig yn goryrru ar hyd lonydd cefn yr ardal pan fo'r pontydd ar draws y Fenai ar gau.
5.0	**MATERION ARIANNOL**
5.1	Diweddariad gan y Clerc: £2439.24 yn y cyfrif. Wedi derbyn ad-daliad o £758.75 am y gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus.
5.2	Taliadau: Gwaith Boeler (£84), £2100 i PlayQuest am goesau newydd plastig i'r siglen
5.3	Grant Balchder yn eich cymuned. Wedi derbyn rhan 1af y grant, sef £2000 o ad-daliad am gadeiriau newydd y Ganolfan a'r troli. Bydd y Clerc yn hawlio taliad arall o £1750 am y gwaith o osod coesau plastig ar y siglen yn y cae chwarae yn lle'r rhai pren. Bydd gwaith plastro cegin y Ganolfan yn cychwn 08/10/2026, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau mi fydd y Clerc yn hawlio'r £1760.89 sydd weddill o'r grant a'r TAW ar yr holl daliadau.
5.4	Cyflog y Clerc yn cynyddu 3.3% yn unol â dyfarniad y NJC
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN:**
6.1	Pwyllgor Ardal Ynys Môn
6.2	Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Dim newid
6.3	Cyngor Sir yn cymeradwyo gwelliannau i'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff yn y dyfodol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus - dim newidiadau tan 2029 ond siawns fydd cynhwysyddion newydd yn cael eu rhannu â'r trigolion yn y cyfamser (sachau tryloyw)
6.4	Ni fydd Cyngor Môn yn cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar hyn o bryd
6.5	Rhaglen Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Ymweliadau posib gan aelodau'r Pwyllgor Craffu i wirio'r defnydd cywir o'r Cod Ymddygiad.
6.5	Blaen rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith - Diweddariad Hydref
7.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
7.1	**Cyfeirnod Cais: FPL/2026/206 -** Star Hand Car Wash, Gaerwen

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

Cofnodion Cyfarfod
7fed Hydref 2026 yn Y Ganolfan, Penmynydd

8.0	**PENDERFYNIAD CYNLLUNIO**
8.1	**Cyfeirnod Cais: HHP/2025/137 -** 3 Glanffrwd, Ffordd Penmynydd - wedi ei ganiatáu
8.2	**Cyfeirnod Cais: LBC/2026/8** - Tai Lewis Rogers Ffordd Penmynydd, Penmynydd - wedi ei ganiatáu gydag amodau
9.0	**GOHEBIAETH YCHWANNEGOL**
9.1	Pont Grog Menai - diweddariad
9.2	Pont Grog Menai - Cau Un Lôn
9.3	Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Arolwg 2030
9.4	Nodiadau Datblygu Ymarfer Deddf Martyn Wedi'i Ddiwygio - ddim yn berthnasol i'r Ganolfan, mond yn berthnasol i adeiladau sy'n dal dros 200 o bobl.
9.5	Dyddiadau hyfforddiant gan Un Llais Cymru
9.6	Digwyddiad ar y cyd Un Llais Cymru/SLCC – 18fed Tachwedd 2026
9.7	Rheolau Sefydlog Enghreifftiol 2026 - Mae'r Adran Caffael wedi ei addasu. DG i ychwanegu'r newidiadau i'n Rheolau Sefydlog presennol a'u cyflwyno yn y cyfarfod nesaf i'w cael eu cymeradwyo. Cawn adolygu'r Rheoliadau Ariannol yr un pryd.
9.8	E-bwletin Un Llais Cymru
10.0	**MATERION ERAILL**
10.1	Gwaith Cynnal a Chadw • Diffibriliwr: **Peninsula** - batris newydd wedi eu gosod ac yn para 5 mlynedd, y padiau'n iawn tan 19/10/2030 **Y Ganolfan** - batri newydd ar ddechrau 2026 sy'n para 5 mlynedd, y padiau'n iawn tan 22/07/2028 • Gwaith strimio o amgylch y Ganolfan wedi ei wneud a'r cafn blodau wedi ei symud i safle mwy diogel wrth droed yr hysbysfwrdd • Blychau blodau y cae chwarae wedi eu clirio, matiau atal chwyn wedi eu gosod a 130 o fylbiau gwanwyn wedi eu plannu ynddynt. • RW i newid y sbring ar y giât bren yn y cae chwarae a gosod teclyn i atal y giât rhag agor led y pen a malu'r sbring. • Cafwyd dyfynbris teg iawn gan RW i dorri a chlirio'r gwrychoedd yn y cae chwarae sydd wedi gordyfu ar hyd y ffens tu ôl i'r tai. Derbyniwyd y dyfynbris. • Cafwyd dyfynbrisiau hefyd gan RW i dorri'r glaswellt yn y cae chwarae yn ystod 2027 ac i gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus. Derbyniwyd y dyfynbris.
10.2	Elusendai: Cafwyd diweddariad gan DG. Ers i'r cynlluniau gael eu caniatáu cafwyd drafodaethau cyllidol gyda'r Loteri Cenedlaethol a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol er mwyn parhau â'r weledigaeth o greu 3 annedd ar gyfer bobl ifanc yr ardal i fyw ynddynt ar rent isel am ddim mwy na 7 mlynedd. Mae cyfansoddiad newydd wedi ei greu i adlewyrchu hyn ac yn barod i'w yrru at y Comisiwn Elusennau i'w gymeradwyo.
11.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
11.1	Cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd ac adolygu'r Rheoliadau Ariannol
11.2	Yswiriant
11.3	Cyflwyno Cyllideb Drafft 2027-28
	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher 4ydd Tachwedd, 2026 am 7:00yh
Manylion cyswllt: Gillian Morris **penmynyddcc@gmail.com**	

Llofnod **Dyddiad**